



Dinas a Sir Abertawe

**Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu -
Gwella Gwasanaethau, Adfywio a Chyllid**

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas /
MS Teams**

Dydd Mawrth, 17 Hydref 2023 am 10.00 am

Yn Bresennol: Y Cyngorydd C A Holley (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

Y Cyngorydd(wyr)

P M Black
L James
M Jones
M W Locke

Y Cyngorydd(wyr)

C M J Evans
D H Jenkins
S M Jones
W G Thomas

Y Cyngorydd(wyr)

E W Fitzgerald
M H Jones
J W Jones
T M White

Hefyd yn bresennol

Y Cyngorydd Elliott King Aelod y Cabinet dros Ddiwylliant, Hawliau Dynol a
Chydraddoldeb
Jeff Brown Archwilio Cymru
Bethan Roberts Archwilio Cymru

Swyddog(ion)

Karen Gibbins Rheolwr Gwasanaethau Llyfrgell
Bethan Lee Prif Lyfrgellydd
Rachel Percival Swyddog Craffu
Richard Rowlands Rheolwr yr Uned Cyflwyno Strategol

Ymddiheuriadau am absenoldeb

Y Cyngorydd(wy): M S Tribe

20 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Nid oedd unrhyw ddatgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

21 Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau

Dim.

22 Cofnodion

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol.

23 Cwestiynau gan y Cyhoedd

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

24 Adroddiad Archwilio Cymru - Gosod Amcanion Lles

Roedd Jeff Brown yn bresennol i gyflwyno adroddiad gan Archwilio Cymru a rhoddodd Richard Rowlands adborth i'r cyngor mewn ymateb i'r adroddiad. Nodwyd y canlynol –

- Mae'r adroddiad hwn yn rhan o raglen dreigl lle mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu i ba raddau y mae cyrff wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod eu hamcanion lles.
- Dywedodd Archwilio Cymru fod Cyngor Abertawe wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion lles a bydd ymgorffori ei ddull o ymgysylltu a monitro perfformiad yn cryfhau hyn ymhellach.
- Darparodd Archwilio Cymru enghreifftiau o arfer da a meysydd i'w gwella gan Gyngor Abertawe fel crynodeb o'r adroddiad.
- Er bod yr adroddiad yn adlewyrchu nad oedd ymgynghoriad Cyngor Abertawe yn adlewyrchu amrywiaeth lawn y boblogaeth, roedd adlewyrchiad o ran y ffaith y gall cynnal ymgynghoriad cyhoeddus fod yn heriol ac nid oes unrhyw feincnodau ar hyn o bryd ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd.
- Roedd y cyngor yn falch o'r adroddiad. Mae'n cydnabod y meysydd ar gyfer gwella ac mae wedi gwneud cynnydd o ran y rhain. Mae dulliau ymgysylltu yn cael eu cynyddu a'u hehangu ar hyn o bryd ac mae mesurau perfformiad wedi'u hadolygu'n ddiweddar ond byddai fframwaith canlyniadau cenedlaethol yn fuddiol.

25 Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru - Adroddiad Perfformiad Blynyddol

Cyflwynodd y Cyngorydd Elliott King yr adroddiad blynyddol gyda Karen Gibbin a Bethan Lee. Nodwyd y canlynol-

- Cyflwynwyd i'r Panel Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru, asesiad Llywodraeth Cymru ar gyfer Llyfrgelloedd Abertawe ar gyfer 2021-22 a chyflwyniad y gwasanaeth llyfrgell ar gyfer 2022-23.
- Mae Llyfrgelloedd Abertawe yn dal i wella o effeithiau pandemig COVID ac nid ydynt wedi cyrraedd lefelau cyn COVID eto, ond mae niferoedd y bobl sy'n defnyddio'r llyfrgelloedd yn cynyddu.
- Ailgyflwynodd Abertawe ddirwyon ar gyfer llyfrau llyfrgell ym mis Ebrill 2023 oherwydd targed incwm cyllideb refeniw ar gyfer dirwyon llyfrau hwyr.
- Amlygodd y gwasanaethau llyfrgell y canlynol: gwaith gyda sefydliad 'Good Things', y Rhaglen Addysg i Gleifion, cynnydd yn y defnydd o Wi-Fi dros y defnydd o gyfrifiaduron personol, gwasanaethau argraffu, gwasanaethau cadw, menter Lleoedd Llesol, gwaith gydag ysgolion a chynnydd mewn gwasanaethau dwyieithog ac adnoddau mewn ieithoedd eraill.
- Bydd y Llyfrgell Ganolog yn symud i'r Stofa, gyda chymorth grant o £300,000 gan Lywodraeth Cymru ar gyfer silffoedd ac offer digidol newydd.
- Mae archwiliad o gyflwr adeiladau wedi'i gynnal ac mae'r gwaith hwnnw'n cael ei ystyried fel rhan o'r broses fapio ehangach o amgylch y model hybiau cymunedol

26 Cynllun Gwaith

Nodwyd y cynllun gwaith.

27 **Llythyrau**

Daeth y cyfarfod i ben am 11.25am.

Cadeirydd